Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cofrestr yr NMC

**1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024**



## Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gofrestr yr NMC o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n rhoi cipolwg ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth ledled y DU.

Mae'r dadansoddiad data blynyddol o gofrestr yr NMC a'r arolwg ymadawyr sy'n cyd-fynd â hi yn ein galluogi i greu darlun o'n cofrestr gyfan gan gynnwys cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig, lle cawsant eu haddysgu, a rhai o'u rhesymau dros adael. Mae hefyd yn dangos tueddiadau a newidiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella lles pawb. Rydym yn gobeithio y bydd y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn elwa o'r data a'r mewnwelediadau yn yr adroddiad hwn, a'n tablau data cynhwysfawr (a gysylltir isod) drwy eu defnyddio i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac i helpu i wella profiad gweithwyr proffesiynol yn y gweithle a'r gofal mae pobl yn ei dderbyn.

## Y darlun mawr – y niferoedd mwyaf erioed ar y gofrestr

Mae mwy o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio[1] gofrestr yr NMC nag erioed – **826,418**. Mae hynny **37,723** (**4.8 y cant**) yn fwy o weithwyr proffesiynol cofrestredig na 12 mis yn ôl, a **128,184** (**18.4 y cant**) yn fwy na phum mlynedd yn ôl. Mae'r cyfanswm yn cynnwys **2,533** o weithwyr proffesiynol a symudodd ymlaen i'n cofrestr barhaol o gofrestr dros dro Covid-19 – a sefydlwyd ym mis Mawrth 2020 i gefnogi ymateb y DU i'r pandemig coronafeirws ac a gaeodd ym mis Mawrth 2024.

Croesewir y niferoedd uchaf erioed hyn o ystyried yr heriau o alw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, anghenion newidiol a phwysau ar y gweithlu.

Nifer fwyaf erioed o
**826,418**
o weithwyr proffesiynol

**Yn y 12 mis diwethaf**

Cynnydd o
**37,723** **+4.8%**

**+4.6%** **Nyrsys**
765,051

**+5.8%** **Bydwragedd**
44,125

**-2.5%** **Unigolion cofrestredig deuol**
6,361

**+16.6%** **Cymdeithion Nyrsio**
10,881

1 Cyflwynwyd rôl y cydymaith nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cymdeithion nyrsio ymarfer yn y rôl hon.

## Nifer cynyddol o ymunwyr gyda rhaniad cyfartal bron rhwng y DU a rhyngwladol

Mae nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf ledled y DU yn parhau i godi, gyda **bron i 60,000** o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol newydd yn cofrestru gyda ni eleni yn unig. Rhannwyd y rhain bron yn gyfartal rhwng ymunwyr a addysgwyd yn y DU (**30,363**) a'r rhai a addysgwyd yn rhyngwladol (**29,628**).

Roedd y twf flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd yn oed yn uwch ymhlith ymunwyr rhyngwladol, sy'n dangos cynnydd o **fwy na 18 y cant** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Addysgwyd **bron i hanner** (**14,615**) yr ymunwyr newydd eleni yn India.

Rydym yn parhau i weld cynnydd cyfrannol yn nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf o sawl gwlad 'rhestr goch' lle na chaniateir recriwtio gweithredol ohonynt. Rydym yn atgoffa cyflogwyr ac asiantaethau i ddilyn y codau ymarfer perthnasol i helpu i gynnal safonau moesegol a chefnogi tegwch iechyd byd-eang.

Fe fu cynnydd parhaus hefyd yn nifer yr ymunwyr bydwreigiaeth sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol eleni yn dilyn mentrau megis Rhaglen Recriwtio Rhyngwladol Mamolaeth GIG Lloegr, sy'n rhan o Raglen Gweithlu Mamolaeth y GIG. Fe wnaeth cyfanswm o **711** o fydwragedd a oedd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol ymuno o'r tu allan i'r DU yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â **348** yn yr un cyfnod y llynedd.

## Mae cyfran yr ymadawyr yn mynd i lawr, ond mae rhai yn gadael yn gynharach

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **27,168** o bobl y gofrestr. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld gostyngiad bach yn y rhai sy'n gadael y gofrestr yn unol â thueddiad cyson ar i lawr fel cyfran o'r gofrestr – o **4.2 y cant** yn y flwyddyn 2018-2019, i **3.4 y cant** yn y flwyddyn ddiwethaf.

Er bod gostyngiad yn nifer y rhai sy'n gadael yn cael ei groesawu bob amser, mae'n werth nodi bod **un rhan o bump** (**20.3 y cant**) o'r gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a adawodd y gofrestr y llynedd (**5,508**), wedi gwneud hynny o fewn y deng mlynedd cyntaf ar ôl ymuno â'u dewis broffesiwn. Mae hyn yn cymharu â **18.8 y cant** yn y flwyddyn 2020-2021 ac yn adlewyrchu cynnydd dros y tair blynedd diwethaf. O'r ymadawyr a gwblhaodd ein harolwg ymadawyr (darllenwch ragor isod), dywedodd **49 y cant** eu bod wedi gadael yn gynharach na'r disgwyl.

Yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022-2023

+14.9% **59,991** a ymunodd â'r gofrestr

+1.5% **27,168** a adawodd y gofrestr

Yn y 12 mis diwethaf

**49.4%** o ymunwyr newydd a addysgwyd y tu allan i'r DU

O fis Mawrth 2024:

77% wedi'u haddysgu yn y DU

23% wedi'u haddysgu'n rhyngwladol

Gwledydd addysg uchaf yy tu allan i'r DU ym mis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd

1. **India** 62,413 ↑ +28.9%
2. **Y Philipinos** 49,092 ↑ +7.9%
3. **Nigeria** 13,656 ↑ +28.3%
4. **Romania** 7,378 ↑ +0.3%
5. **Ghana** 5,536 ↑ +44.2%

## Mae proffil y gofrestr yn parhau i newid

Mae fffactorau amrywiol yn cyflwyno newidiadau pellach yn amrywiaeth a phroffil ein cofrestr. Mae niferoedd cyffredinol y gweithwyr proffesiynol gwryw ar ein cofrestr wedi dangos cynnydd bach ond cyson gan godi o **10.7 y cant** o gyfanswm y gofrestr ym mis Mawrth 2019 i **11.1 y cant** (**91,678**) ym mis Mawrth 2024. Fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr proffesiynol gwryw a hyfforddodd yn y DU fel cyfran o'r holl weithwyr ymuno wedi gostwng yn raddol o **7.1 y cant** ym mis Mawrth 2019 i **4.7 y cant** ym mis Mawrth 2024. Mae hyn yn cyferbynnu â nifer y gweithwyr proffesiynol gwryw a addysgwyd yn rhyngwladol sy'n ymuno, sydd wedi codi yn ystod yr un cyfnod o **5 i 7.8 y cant**.

Mae twf parhaus mewn cofrestriadau rhyngwladol, ynghyd â charfan ethnig amrywiol o ymunwyr a addysgwyd yn y DU, hefyd yn newid proffil ethnig y gofrestr. Ar **30,363**, roedd nifer y rhai a ymunodd o'r DU **11.9 y cant yn uwch** nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r garfan ddiweddaraf o ymunwyr a addysgwyd yn y DU, roedd **bron i draean** (**29.4 y cant**) o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Erbyn hyn mae gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am **bron i draean** (**30.6 y cant**) o'r gofrestr. Dyna **2.9 pwynt canran yn uwch** na'r llynedd a **10.8 pwynt canran yn fwy** na phum mlynedd yn ôl.

Mae anghydraddoldeb a gwahaniaethu'n effeithio ar weithwyr proffesiynol yn y meysydd nyrsio a bydwreigiaeth a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt, gyda'r angen am amgylcheddau gwaith a gwasanaethau diogel a theg ar draws y sector. Rydyn ni'n gwybod bod gennym lawer i'w wneud i gefnogi pob gweithiwr proffesiynol ac rydyn ni'n gweithio tuag at hyn trwy fentrau fel ein Fforwm Rhyngwladol Cymdeithas Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n mwyhau lleisiau'r rhai a addysgwyd dramor a/neu weithwyr proffesiynol tramor sy'n gweithio yn y DU.

## Meysydd ymarfer nyrsio

Ar draws y pedwar maes ymarfer nyrsio (oedolion, plant, iechyd meddwl ac anableddau dysgu) mae ein data ar gyfer Mawrth 2024 yn adlewyrchu trywydd eithaf cyson dros y pum mlynedd diwethaf. Yn unol â'r blynyddoedd diwethaf, mae nifer y nyrsys oedolion, plant ac iechyd meddwl wedi codi eto eleni ac ac eithrio cynnydd bach ym mis Medi 2021, mae nifer y nyrsys anableddau dysgu wedi parhau i ostwng yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Yn y 12 mis diwethaf**


**14.6%** O bobl yn gadael y gofrestr wedi'u haddysgu'n rhyngwladol

**O fis Mawrth 2024**

**43 blynedd, 9 miss** yw oedran cyfartalog y gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr

**30.6%** o'r gofrestr o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2019, roedd. Yn 2019, **19.8%** o'r gofrestr o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

**Rhaniad rhywedd y gofrestr**



## SCPHN a chymwysterau ymarfer arbenigol

Fe wnaeth cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru fel nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) ostwng ychydig eto yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (**-0.7 y cant**). Fodd bynnag, wrth edrych ar draws y pedair gwlad, fe fu cynnydd yng Ngogledd Iwerddon, Cymru ac yn fwyaf nodedig yn yr Alban, tra bod cromlin ar i lawr yn parhau yn Lloegr.

Mae cyfanswm y cymwysterau ymarfer arbenigol cymunedol cyfun (SPQ) wedi parhau i godi, gyda chynnydd o **2.9 y cant**.

## Mae'r rhesymau dros adael yn parhau i ddangos tueddiadau pryderus ar draws y DU

Mae ein harolwg blynyddol o weithwyr proffesiynol sydd wedi gadael y gofrestr yn y DU yn ein galluogi i ddeall rhesymau pobl dros adael y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Gallwch ddarllen rhagor o fanylion yn ein Crynodeb o Arolwg yr NMC o Ymadawyr â'r Gofrestr.

Yn arolwg eleni, ymddeoliad oedd y prif reswm dros adael o hyd, ag ymatebwyr yn nodi mai iechyd gwael oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin. Er bod iechyd gwael yn cael ei adrodd yn gyffredinol fel iechyd corfforol a meddyliol (**75 a 62 y cant yn y drefn honno**), mewn ateb i gwestiwn newydd eleni, dywedodd pedwar o bob pump (**81 y cant**) o'r rhai a nododd iechyd meddwl gwael yn benodol fod eu rôl yn cyfrannu'n negyddol at hyn. Yn y darlun ar gyfer y DU gyfan, lludded hefyd oedd y trydydd rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros adael.

Roedd y tri phrif reswm hyn dros adael yn gyson ymhlith gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, ond roedd materion staffio a phryderon ynghylch ansawdd gofal hefyd yn ysgogwyr eilaidd mwy cyffredin i fydwragedd.

Yn unol â chanfyddiadau arolwg y llynedd, mae oddeutu hanner yr ymatebwyr yn gadael yn gynt na'r disgwyl (fel arfer bum mlynedd yn gynt na'r disgwyl). Er gwaethaf gwelliant bach eleni, dywedodd y rhan fwyaf o ymadawyr na fyddent yn argymell nyrsio neu fydwreigiaeth fel gyrfa. O gymharu â nyrsys, roedd bydwragedd yn llai tebygol o argymell nyrsio neu fydwreigiaeth fel llwybr gyrfa.

### O fis Mawrth 2024

| Newid | Categori | Nifer |
|---|---|---|
| +3.8% | **Nyrsys oedolion** | 609,945 |
| +3.5% | **Nyrsys plant** | 59,005 |
| +3.7% | **Nyrsys iechyd meddwl** | 99,040 |
| -0.9% | **Nyrsys anableddau dysgu** | 16,683 |
| -0.7% | **Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)** | 29,458 |

### Amser ar y gofrestr ym mis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd

| Newid | Categori | Nifer |
|---|---|---|
| +14.2% | **Pum mlynedd neu lai** | 228,756 |
| +3.3% | **Pum i ddeng mlynedd** | 123,303 |
| +2.4% | **10 i 30 mlynedd** | 336,701 |
| -1.7% | **30 mlynedd neu fwy** | 137,658 |

Canfuom hefyd fod rhai grwpiau, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol anabl, yn llai tebygol o adael oherwydd ymddeoliad ac yn fwy tebygol o sôn am afiechyd (corfforol a meddyliol), diffyg cefnogaeth a bwlio fel rhesymau dros adael.

Dywedodd y rhan fwyaf o ymadawyr (**85 y cant**) nad oedd ganddynt unrhyw fwriad i ddychwelyd i'r proffesiynau yn y dyfodol. O'r rhai a ddywedodd y gallent ddychwelyd, dywedodd un o bob pump y byddent ond yn dychwelyd i ymarfer y tu allan i'r DU.

O ystyried y dirwedd gyffredinol hon, mae strategaethau hirdymor megis cefnogi gweithwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa trwy diwtoriaeth[2] yn hanfodol ar gyfer cadw staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac i barhau i dyfu gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth medrus, hyderus a phrofiadol sy'n gallu darparu gofal diogel, effeithiol a charedig.

## Gwella profiad gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd

Rydym yn gobeithio y gall partneriaid a'r sector ehangach ddefnyddio'r trosolwg hwn o'n cofrestr, ochr yn ochr â'n **tablau data** cynhwysfawr a **Chrynodeb o Arolwg yr NMC o Ymadawyr â Chofrestr**, wrth gynllunio'r gweithlu.

Byddwn yn parhau i ddysgu oddi wrth ddata a mewnwelediadau pellach a'u rhannu dros y misoedd nesaf, gan gynnwys ein hail Sbotolau blynyddol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fel bob amser, rydym yn eich annog i **gysylltu** ag unrhyw gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiadau hyn ac adroddiadau eraill.



**Matthew McClelland**,
Cyfarwyddwr Gweithredol
Strategaeth a Mewnwelediad



### Y crefyddau sy'n tyfu gyflymaf ar y gofrestr ym mis Mawrth 2024, o gymharu â'r llynedd

+25.0% **Hindwiaid** 16,782

+17.4% **Moslemiaid** 20,418

+11.6% **Siciaid** 2,663

### O fis Mawrth 2024

**25,281** o 826,418 o bobl wedi datgan anabledd

### Cyfeiriadedd rhywiol ym mis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd

+10.4% **33,292** Lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu arall

+4.5% **742,684** Heterorywiol

---

2 Prif nod preceptoriaeth yw croesawu ac integreiddio gweithwyr proffesiynol sydd newydd gofrestru, gweithwyr proffesiynol a addysgir yn rhyngwladol neu'r rhai sy'n symud i faes ymarfer newydd, i'w tîm a'u gweithle newydd. Mae'n helpu'r gweithwyr proffesiynol hyn i drosi eu gwybodaeth yn ymarfer bob dydd, magu hyder a deall sut i gymhwyso'r Cod yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

**Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud dros y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



# Yr hyn a wnawn

## Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr pob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'i cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).